



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ein dull rheoleiddio ar gyfer
sicrhau bod rheolaeth adnoddau
naturiol yn gynaliadwy

Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

Fersiwn 2
Ebrill 2016

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	5
Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.....	5
Beth yw rôl rheoleiddio?.....	7
Ein Hegwyddorion Rheoleiddio	9
1. Cyflawni canlyniadau	9
2. Bod yn ddeallus	9
3. Bod yn barod i herio.....	10
4. Defnyddio'r ystod lawn o declynnau sydd ar gael	10
5. Bod yn hyblyg	10
6. Dwyn y sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd	11
7. Bod yn effeithlon ac yn effeithiol	11
8. Bod yn glir ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham	11
Yr hyn y byddwn yn ei wneud, a sut y byddwn yn ei wneud	12
Ein saith thema	13
Canlyniadau (Egwyddor 1)	13
Tystiolaeth (Egwyddor 2).....	14
Data a gwybodaeth – beth rydym yn ei ofyn gan eraill	14
Deall eraill	14
Deall ein hunain	15
Teclynnau (Egwyddorion 3 a 4).....	15
Rheoleiddio (ffurfiol).....	16
Economaid ac yn seiliedig ar y farchnad	20
Gwirfoddol ac yn seiliedig ar wybodaeth / cyfathrebu	21
Defnyddio'r teclynnau rheoleiddio.....	21
Ble, pryd, pwy?	21
Risg a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer beth yr ydym yn ei wneud	22
Trefniadaeth (Egwyddorion 5, 6 a 7)	23
Cyfathrebu (Egwyddor 8)	23
Cyflawni egwyddorion rheoleiddio da	24
Adborth	24
Atodiad 1 - Rhaglenni Tystiolaeth	25
Atodiad 2 - Cod y Rheoleiddwyr a'n Hegwyddorion Rheoleiddio	27

Crynodeb Gweithredol

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cadw'n gynaliadwy, yn cael eu gwella a'u defnyddio, nawr ac yn y dyfodol. Mae ein dull yn ymwneud â sut y byddwn yn sicrhau lles hirdymor Cymru, gan weithio gyda'r rheiny yr ydym mewn cysylltiad uniongyrchol â nhw, gan ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio.

Rydym wedi nodi sut yr ydym yn diffinio rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'n hegwyddorion rheoleiddio er mwyn helpu i gyflawni hyn.

Rydym yn diffinio rôl rheoleiddio, a sut mae hyn yn cydweddu â'n diben a'r ddeddfwriaeth sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru, ac yn adeiladu ar ein hegwyddorion rheoleiddio sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Ein hegwyddorion rheoleiddio yw:

- **Cyflawni canlyniadau**
- **Bod yn ddeallus**
- **Bod yn barod i herio**
- **Defnyddio'r ystod lawn o declynnau sydd ar gael**
- **Bod yn hyblyg**
- **Dwyn y sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd**
- **Bod yn effeithlon ac yn effeithiol**
- **Bod yn glir ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham**

Rydym yn egluro sut mae'n hegwyddorion rheoleiddio yn diffinio'r themâu er mwyn cyflawni, sy'n cynnwys:

- **Canlyniadau** – Rydym yn dangos sut mae rheoleiddio a defnyddio deddfwriaeth yn effeithiol yn darparu sylfaen hanfodol i'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a sut mae gwydnwch tymor hir yn dibynnu ar godi safonau yn uchel;
- **Tystiolaeth** - Rydym yn datgan y byddwn yn defnyddio tystiolaeth rheoleiddio i roi hwb i'n hymyriadau a'n harloesedd, gan ddefnyddio Rhwydweithiau Ewropeaidd a chysylltiadau gyda rheoleiddwyr eraill. Rydym yn nodi ein sefyllfa o ran ceisiadau am ddata gan weithredwyr;
- **Deall eraill** - Rydym yn nodi ein hymrwymiad i weithio ac ymgysylltu gydag eraill, drwy ein grwpiau rhanddeiliaid sydd wedi'u sefydlu eisoes a thrwy weithio gyda nhw ar newidiadau polisi yn y dyfodol;
- **Deall ein hunain** – Rydym yn dangos y cysylltiad rhwng ein dull o weithredu a'n gwerthoedd sefydliadol craidd;
- **Teclynnau** - Rydym yn dangos sut y byddwn yn defnyddio'r ymyriad rheoleiddio cywir yn unol â'r amgylchiadau.
 - Byddwn yn gweithio o'r rhagdybiaeth fod y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio eisiau cydymffurfio â'r gyfraith ac mai cyfrifoldeb y sawl sy'n gwneud cais a'r gweithredwyr yw dangos eu bod yn cydymffurfio.

- Byddwn yn ceisio sicrhau corff o ganllawiau clir, hygyrch a chryno ac yn gweithio gydag eraill i ddatblygu hyn.
- Byddwn yn glir o ran beth mae cydymffurfio yn ei olygu ac rydym eisiau trafod gyda gweithredwyr o ran unrhyw broblemau sydd ganddyn nhw wrth gyflawni hyn.
- Byddwn yn annog ac yn cefnogi gwelliant, ac yn cydnabod y rheiny sydd yn cydymffurfio.
- Byddwn yn glir ynghylch ein polisi gorfodi ac erlyn ac yn galed ar y rhai sy'n anwybyddu'r gyfraith neu'n mentro drwy osgoi cydymffurfio.
- Byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr sy'n cydymffurfio i'n helpu i ymdrin â throseddwyr a sicrhau tegwch;
- **Trefniadaeth** – Rydym yn nodi ein hymrwymiad i gael y sgiliau cywir ar waith ac i sicrhau bod ein staff yn deall y cod rheoleiddwyr. Byddwn yn gweithio gydag eraill i gael mynediad at y sgiliau cywir fel y byddwn eu hangen. Byddwn yn adennill ein costau'n llawn ac yn sicrhau fod yr incwm a ddaw o ffioedd a thaliadau yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau rheoleiddio ffurfiol yn unig. Byddwn yn parhau i weithio ar ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd, a lle bo'n bosibl byddwn yn lleihau'r baich rheoliadol ffurfiol ac yn annog cydymffurfiaeth a thwf;
- **Cyfathrebu** - Rydym yn nodi y byddwn yn agored ac yn dryloyw, ac yn defnyddio ein Safonau Gwasanaeth Rheoleiddio. Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu ein gwefan fel rhan o ddatblygiad ehangach ein strategaeth cyfathrebu;
- Byddwn yn cyflawni egwyddorion rheoleiddio da.

Cyflwyniad

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal mewn modd cynaliadwy, yn cael eu gwella a'u defnyddio, nawr ac yn y dyfodol. Mae ein cyfrifoldebau presennol yn golygu ein bod mewn cysylltiad uniongyrchol â thua 1,700 o safleoedd diwydiannol, gwastraff a dŵr ledled Cymru. Rydym hefyd yn cyflwyno dros 10,000 o drwyddedau, 65,000 o drwyddedau gwialen bysgota, 480 o drwyddedau torri coed a 100 o drwyddedau morol y flwyddyn.

Mae ein dull yn ymwneud â sut y byddwn yn sicrhau lles hirdymor Cymru, gan weithio gyda'r rheiny yr ydym mewn cysylltiad uniongyrchol â nhw, gan ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio. Mae'r ffyrdd newydd hyn o weithio yn adlewyrchu ystod eang o rolau a chyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â'r fframwaith deddfwriaethol newydd sydd yn cael ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru i gyflawni lles hirdymor Cymru. Nid yn unig mae hyn yn golygu ffyrdd newydd o weithio a dull hyblyg, ond mae hefyd yn golygu ffyrdd newydd o ddisgrifio'r heriau i gyflawni hyn yng Nghymru, a ffyrdd newydd o edrych ar yr heriau hyn.


Un o'r prif heriau yr ydym am roi sylw iddi yw beth mae rheoleiddio wir yn ei olygu. Rydym yn cydnabod fod hyn yn golygu pethau gwahanol i grwpiau gwahanol, ond credwn fod rheoleiddio yn golygu gwneud rhywbeth sy'n gwneud gwahaniaeth. Nid yw hyn yn ymwneud â'r gyfraith yn unig, mae'n ehangach na hyn a gall gynnwys offer gwirfoddol ac economaidd, a defnyddio a rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni fod yn glir ynghylch lle y mae pethau yn gyfreithiol ofynnol, a lle mai dyma'r peth da, neu gywir, i'w wneud. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn ceisio ei wneud, er mwyn helpu'r sawl yr ydym yn ymwneud â nhw i aros ar ochr iawn y gyfraith.

Rhaid i ni fod yn glir, fodd bynnag, fod gofyn i ni ddefnyddio gofynion cyfreithiol lle maen nhw'n bodoli. Ymagweddau ategol yn unig yw dulliau ategol. Ni allant ddisodli darpariaeth gyfreithiol lle bo hynny'n bodoli. Byddwn yn parhau i roi gofynion y gyfraith ar waith.

Yma, rydym yn nodi sut yr ydym yn ceisio diffinio rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'n hegwyddorion rheoleiddio i'n helpu i gyflawni hyn, ar gyfer y bobl hynny y byddwn yn dod i gysylltiad â nhw, ac i ni ein hunain.

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae'r fframwaith deddfwriaethol cyffredinol newydd sy'n cael ei roi ar waith yng Nghymru yn ceisio sicrhau lles hirdymor Cymru. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys tair prif elfen yn ymwneud â lles cenedlaethau'r dyfodol, yr amgylchedd a chynllunio.




Y tirlun deddfwriaethol sylfaenol yng Nghymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi dyletswydd arnom i ddefnyddio egwyddorion¹ datblygu cynaliadwy yn ein gwaith. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Atgyfnerthir hyn gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), sy'n datgan bod yn rhaid i ni:

- (a) mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru,
- a
- (b) rhoi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith, drwy ddefnyddio ei swyddogaethau, cyhyd ag y bo hynny'n gyson â'u harfer priodol.


Felly, mae gennym rôl allweddol o ran sicrhau llesiant hirdymor Cymru a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys deall y dystiolaeth ynglŷn â chyflwr a gwydnwch adnoddau naturiol, sut y gall hyn wedyn fod yn sail i bolisi cenedlaethol hyd at beth mae hyn yn ei olygu'n lleol.



Cyflawni llesiant tymor hir Cymru

¹ Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn diffinio datblygiad cynaliadwy fel "proses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i anelu at gyflawni nodau llesiant".

Nid yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ddull rhagnodol, ond mae'n cynnig rhywfaint o egwyddorion arweiniol² o ran gweithio gyda natur i gael amgylchedd iach a gwydn, ar gyfer pobl a natur fel ei gilydd. Mae'n ffordd o ystyried yr amgylchedd - a'i iechyd - yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag ymdrin ag agweddau unigol ar wahân. Bydd yn galluogi ein prosiectau a'n rhaglenni i gyflawni gymaint o fanteision ag y bo modd ar gyfer pobl, yr amgylchedd a busnesau yng Nghymru.



Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Y nod yw gweithio gyda chydweithwyr eraill, cymunedau, diwydiant a'r Llywodraeth o'r cychwyn er mwyn pennu nodau ac amcanion cyffredin ar gyfer gweithgaredd neu leoliad penodol. Mae'n ffordd i ni gyd ddod o hyd i ffyrdd o ennill ym mhopeth y byddwn yn ei wneud, a bydd yn ein galluogi i ddefnyddio dull mwy integredig ar draws ein holl waith.


Gall hyn ddefnyddio ein hystod draddodiadol o offer ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd, ond bydd hefyd gofyn i ni ddefnyddio rhai newydd a fydd yn ein helpu i gyflawni mwy fyth. Mae hyn hefyd yn ein hannog i ystyried y raddfa ofodol ac amserlenni ar gyfer ein camau gweithredu, gan reoli ein dull ar y lefel fwyaf priodol, er mwyn ein helpu i gyflawni canlyniadau cyffredin. Bydd hyn hefyd yn ein hannog i feddwl am bryd i weithredu ac i ystyried pryd y gellid cyflawni canlyniadau gwell drwy ymyrraeth gynnar neu atal.

Beth yw rôl rheoleiddio?


Wrth ystyried rôl rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae angen i ni ystyried sut mae ein cymdeithas ar hyn o bryd, a chymdeithas y dyfodol, yn elwa ar adnoddau naturiol ac ecosystemau. Gall y manteision hyn gynnwys pethau fel dŵr, bwyd a thanwydd, mynediad at ofod gwyrdd a glas, a'r rôl naturiol mae'r amgylchedd yn chwarae o ran rheoleiddio pethau yr ydym yn elwa ohonynt, fel peillio neu'r cylch dŵr. Fodd bynnag, gallai'r rhain fod yn agored i bwysau, megis gweithgarwch neu lygrwyr newydd, a/neu grynodiad neu leoliad y pwysau hyn yn yr amgylchedd. Gallai hyn beryglu neu leihau gwydnwch yr adnoddau naturiol a'r ecosystemau hyn i ddarparu ystod o fanteision i'r gymdeithas.

Mae angen ymateb i'r pwysau ar wydnwch adnoddau naturiol ac ecosystemau, a'r bygythiad y gallai ei achosi. Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw'r ymateb hwn, ac fe all amddiffyn neu wella gwydnwch a gallu adnoddau naturiol ac ecosystemau, i ddelio gyda'r pwysau dynol neu'r pwysau naturiol hyn.

² Mae naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael eu mynegi yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru).



Credwn fod rheoleiddio yn golygu gwneud rhywbeth sy'n gwneud gwahaniaeth. Nid yw hyn yn ymwneud â'r gyfraith yn unig, mae'n ehangach na hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni fod yn glir ynghylch lle mae pethau yn gyfreithiol ofynnol, a lle mai dyma'r peth da, neu gywir, i'w wneud. Er mwyn darparu'r eglurder hwn, rydym yn cyfeirio at reoleiddio ffurfiol a rheoleiddio anffurfiol, gan ystyried lle gallai ymyriadau gael eu hategu gan y gyfraith neu beidio.



Bydd hyn yn gofyn am newid mo ran safbwynt ac archwilio'r ffordd rydym wedi gweithio o'r blaen yn ein hen sefydliadau. Byddwn yn edrych ar beth sydd wedi gweithio'n dda, yr hyn nad yw wedi gweithio'n dda, ac yn datblygu ffyrdd newydd o edrych ar yr heriau sy'n ein hwynebu ni, ein pobl, ein busnesau a'r adnoddau naturiol yng Nghymru.

Caiff natur yr ymyriadau, sut y gellir eu cyflawni, pa dystiolaeth sy'n ategu hyn, a lle mae hyn yn cyd-fynd â chyflwyno polisi cenedlaethol eu dwyn ynghyd yn y Datganiadau Ardal. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am dulliau wedi'u teilwra, gan barchu graddfa ofodol yr heriau.

Ni fyddwn yn cyflawni'r fframwaith dros nos. Bydd angen i ni ddwyn amrywiaeth o sgiliau, profiad a chysylltiadau gyda nifer o sefydliadau ynghyd. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i ailwerthuso dulliau ac edrych ar sut i gyflawni ein canlyniadau cyffredinol yn effeithiol.


³ Efallai y bydd rhai yn cyfeirio at y rhain fel rheoleiddio uniongyrchol a rheoleiddio anuniongyrchol.

Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

O ystyried y cyd-destun eang hwn ar gyfer rheoleiddio, ni ellir diffinio'r holl ddulliau posibl ar gyfer yr holl amgylchiadau. Felly, rydym wedi ceisio mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar egwyddorion, ac wedi diffinio set o wyth egwyddor rheoleiddio, sydd hefyd yn adlewyrchu ar egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r dull ecosystem.

1. Cyflawni canlyniadau

Byddwn yn cyflawni canlyniadau, yn hytrach na rheoleiddio yn unig, gan geisio cyflawni canlyniadau cyffredin le y gallwn.




Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith a wnawn yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau. Mae hyn yn egluro rôl rheoleiddio fel arf i gyflawni. Mae hyn yn ein galluogi i ystyried canlyniadau gan ystyried dewisiadau cymdeithasol a sut y byddai pob un ohonom am i'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau weithredu a bod yn wydn.

Er enghraifft, drwy edrych ar ymagweddau sy'n seiliedig ar ardal (Datganiadau Ardal) i gyflawni canlyniad rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gallwn ddeall y ffordd fwyaf effeithiol i ddefnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth, a sgiliau a gwybodaeth pobl eraill, drwy dreialon. Byddai cyflawni canlyniad o'r fath yn rhoi manteision i bobl, amgylchedd a busnesau Cymru.

2. Bod yn ddeallus


Byddwn yn defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael, ac yn sicrhau bod y data y byddwn yn ei gasglu yn cyfrannu at y dystiolaeth i lywio'r camau i gyflawni canlyniadau.



Byddwn yn sicrhau ein bod yn casglu ac yn defnyddio data yn effeithlon, gan geisio gwneud hyn unwaith yn unig lle bo'n bosibl. Lle bo'n bosibl, byddwn yn defnyddio egwyddorion Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS) ac yn defnyddio'r data a gasglwyd i gyflawni camau gweithredu yn seiliedig ar wybodaeth. Bydd hyn yn annog y defnydd o fathau a ffynonellau newydd o ddata, gan ei ddefnyddio gyda thechnegau datrys problemau i greu gwybodaeth. Bydd defnyddio tystiolaeth eang (gwybodaeth a data), gan gynnwys hwnnw yn yr Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), yn helpu i lywio dulliau'n seiliedig ar risg, ac amlygu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

3. Bod yn barod i herio


Byddwn yn herio ac yn mynd i'r afael â rhwystrau lle nad ydyn nhw'n cyfrannu at y canlyniad.



Drwy adolygu effeithiolrwydd cyflawni canlyniadau, byddwn yn cael ein hannog i herio ein ffordd o weithio a sut rydym yn cyflawni. Mae hyn hefyd yn debygol o'n hannog i nodi ac amlygu rhwystrau posibl o ran cyflawni canlyniadau, a chwilio am ffyrdd i gael gwared ar y rhain.

4. Defnyddio'r ystod lawn o declynnau sydd ar gael


Byddwn yn defnyddio ystod eang o declynnau, gan gynnwys y gyfraith i ddelio â rhai sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, i warchod busnes onest, y gymdeithas a'r amgylchedd.



Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o declynnau. Byddwn yn deall effeithiolrwydd y teclynnau ac yn gwybod pryd ac ym mha gyd-destun y byddant fwyaf addas. Ni fydd teclynnau o'r fath yn cael eu cyfyngu i ddulliau cyfreithiol (rheoleiddio ffurfiol). Byddwn yn defnyddio dulliau cyfreithiol penodol lle mae amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny, a lle mai dyma'r peth iawn i'w wneud.

5. Bod yn hyblyg

Byddwn yn hyblyg ac yn teilwra'r dull i anghenion y derbynydd.



Mae hyn yn ein hannog i ymgysylltu a chydweithio, a cheisio sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sydd angen ei wneud gan ddefnyddio ystod eang o declynnau, gan gynnwys defnyddio mecanweithiau'r farchnad. Gallai ymgysylltu parhaus ac ymgysylltu am gyfnod hir


ennyn ymrwymiad gan y rheiny sy'n cymryd rhan i wneud i bethau ddigwydd er budd ehangach. Felly bydd angen i ni ddeall buddiannau a chymhellion y rhai yr ydym yn eu cyfarfod. Byddwn yn cymryd rhan mewn sgysiau, yn datblygu cysylltiadau aeddfed, ac yn osgoi rhoi cyfarwyddiadau yn unig.

Fodd bynnag, bydd angen i ni gydnabod o hyd y bydd angen mwy o gymorth a chefnogaeth ar rai nag eraill. Byddwn yn teilwra'n briodol, yn meddwl am y rhai yr ydym yn ymgysylltu â nhw, yn ystyried ffactorau megis ymddygiad a gwybodaeth, ac ar gyfer busnesau bydd angen i ni ddeall eu maint, eu sgiliau a'u gallu. Byddwn yn ceisio meithrin arloesedd a newydd-deb a chael ein rhwymo'n llai gan brosesau hanesyddol neu hen ffiniau daearyddol.

Byddwn yn meddwl am y raddfa ofodol a'r amserlen ar gyfer ein gweithredoedd, a beth fyddai'r lefel a'r amser mwyaf priodol i wneud pethau. Bydd hyn yn ein hannog i feddwl am bryd i weithredu ac i edrych ar lle y gallai ymyrraeth gynnar neu atal gyflawni canlyniadau gwell. Hefyd bydd bod yn hyblyg yn ein galluogi i reoli a chydabod bod newid yn anochel.

6. Dwyn y sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd

Byddwn yn sicrhau bod gennym y sgiliau i ddefnyddio'r teclynnau cywir neu weithio gyda'r rheiny a chanddynt y sgiliau a'r arbenigedd cywir.



Byddwn yn gweithio gydag eraill pan fydd eu sgiliau a'u teclynnau nhw yn addas i gyflawni'r canlyniad gorau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y teclynnau mae eraill yn meddu arnyn nhw ac asesu p'un a fyddent yn ein galluogi i fod yn fwy hyblyg ac effeithiol. Wrth ddefnyddio ein teclynnau ein hunain, rhaid i ni sicrhau bod ein timau yn meddu ar y sgiliau cywir i'w defnyddio yn effeithiol ac yn effeithlon. Byddwn hefyd angen sicrhau bod gennym fynediad at y sgiliau a'r wybodaeth gywir fel y gallwn ddeall eraill ac ymgysylltu â nhw yn effeithiol.


7. Bod yn effeithlon ac yn effeithiol

Byddwn yn cyflawni mewn modd effeithiol ac effeithlon, gan weithio gydag eraill lle y gallwn wneud hynny, a lle bo hyn yn beth da i'w wneud.

Byddwn yn egluro beth yw ein safonau gwasanaeth yn glir, a sut y byddwn yn mesur ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd. Byddwn yn glir ynghylch sut a lle y byddwn yn gwario ein hincwm, ac yn sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng costau busnes a chostau i drethdalwyr.

8. Bod yn glir ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham

Byddwn yn sicrhau bod pawb yn deall ein rôl yn y fath fodd fel ei bod yn hawdd gweld y cysylltiad rhwng yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham.




Byddwn yn egluro'n glir beth yr ydym yn ei wneud, a pham, mewn iaith ac arddull sy'n golygu rhywbeth. Bydd hyn yn cynnwys bod yn agored ac yn dryloyw a, lle y byddwn yn ymgynghori, bod yn eglur ynglŷn â sut y gallai hyn lywio ein penderfyniadau.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud, a sut y byddwn yn ei wneud

Mae'n Hegwyddorion Rheoleiddio yn amlygu saith prif thema. Y rhain yw:

- **Canlyniadau** - sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu diffinio er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl ac yn cael eu cyfathrebu mewn ffordd i sicrhau "ymrwymiad" yn allanol ac yn fewnol;
- **Tystiolaeth** - defnyddio tystiolaeth i lywio camau gweithredu;
- **Deall eraill** - deall sut mae pobl eraill yn gweithio, eu canlyniadau, eu heriau a pha sgiliau y gallai fod ganddynt;
- **Deall ein hunain** - deall ein sgiliau, edrych ar ein hymddygiad a'n diwylliant, a pha newidiadau sydd angen eu gwneud;
- **Teclynnau** - deall y teclynnau yr ydym ni ac eraill yn meddu arnynt, sut i gael mynediad at y rhain a'u defnyddio yn briodol, a deall pa rai sy'n fwyaf effeithiol;
- **Trefniadaeth** - sut i drefnu ein hunain orau i gyflawni mewn ffordd effeithiol, effeithlon a hyblyg;
- **Cyfathrebu** - sut yr ydym yn cyfathrebu'r hyn yr ydym yn ei wneud orau, pam, beth sydd wedi'i gyflawni o ganlyniad, a sut i ddarparu adborth ar yr hyn yr ydym ni, ac eraill, yn ei wneud.



Ein saith thema

Drwy edrych ar y saith thema hyn, gallwn ddiffinio sut y byddwn yn ceisio cyflawni ein Hegwyddorion Rheoleiddio.

Canlyniadau (Egwyddor 1)

Ar hyn o bryd mae'r canlyniadau lefel uchel yn cael eu mynegi yn Natganiad Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a byddant yn cael eu disgrifio yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.



Y prif heriau i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy⁴

Mae'r heriau hyn yn amlygu eu hunain mewn gwahanol ffyrdd yn yr amgylchedd ffisegol, ac mae llawer o achosion sylfaenol, ac felly ceir amrywiaeth eang o gamau gweithredu sy'n gallu mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol hyn. Mae deall yr achosion sylfaenol hyn yn gofyn am dechnegau datrys problemau a thystiolaeth.

Un o'r teclynnau a nodwyd i gyflawni'r canlyniadau llywodraethol hyn yw deddfwriaeth, a dyma sy'n diffinio rheoleiddio ffurfiol. Gallai'r ddeddfwriaeth gynnwys safonau penodol, neu ddiffinio sut mae angen rheoli gweithgareddau penodol, er mwyn amddiffyn pobl neu'r amgylchedd.

Mae llawer o'r safonau hyn yn codi drwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd, sydd wedi ei chreu ar ffurf offerynnau i weithredu a chyflawni amcanion polisi'r Undeb Ewropeaidd.

Hefyd, mae canlyniadau eraill y byddai busnesau a phobl yn eu disgwyl, ac nad ydynt o reidrwydd yn cael eu hategu gan ddeddfwriaeth. Gallai'r rhain gynnwys amgylchedd cefnogol i hybu twf mewn busnes, neu leihau effaith gweithgareddau sy'n cael effaith negyddol ar gymunedau.

⁴ Gall yr heriau hyn newid, gan ddbynnu ar ddealltwriaeth well o'r dystiolaeth.

Tystiolaeth (Egwyddor 2)

I reoli ein hanghenion tystiolaeth, byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu Tystiolaeth Rheoleiddio. Nid yn unig y bydd hyn yn diffinio ein gwaith tystiolaeth rheoleiddio ein hunain, ond bydd hefyd yn dangos y cysylltiadau gyda gwaith eraill drwy raglenni megis y *Shared Agency Regulatory Evidence Programme (ShARE)*, IMPEL, a rhaglenni tystiolaeth Llywodraeth Cymru (ochr yn ochr â DEFRA) (Atodiad 1). Mae hyn yn hanfodol i sicrhau ein bod yn ymgymryd â gwaith tystiolaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon posibl, gan ddefnyddio tystiolaeth sydd ar gael yn barod, a gweithio gydag eraill lle mae angen gwaith tystiolaeth newydd. Bydd y Cynllun Gweithredu Tystiolaeth Rheoleiddio yn rhan o gyflawni ein Strategaeth Tystiolaeth ehangach⁵.

Data a gwybodaeth – beth rydym yn ei ofyn gan eraill

Rhan o'n sylfaen dystiolaeth sydd yn deillio o'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio'n ffurfiol. Bydd llawer o hyn yn gysylltiedig â'r broses o ddangos cydymffurfiaeth, gan gynnwys gwybodaeth sydd ei hangen i adrodd i'r Llywodraeth neu'r Comisiwn Ewropeaidd o dan ystod o rwymedigaethau cyfreithiol.

Er bod rhai gofynion adrodd gorfodol, byddwn yn sicrhau bod rheoleiddio ffurfiol sydd yn adrodd i ni:

- Yn syml;
- Mai dim ond unwaith y gwneir cais amdano;
- Y gwneir cais amdano mewn modd sy'n dangos yn glir beth sydd ei angen.

Bydd ein gwaith i ddatblygu systemau newydd yn sicrhau mai dyma'r hyn a wnawn mewn perthynas â gwybodaeth y byddwn yn gofyn amdani.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r rheiny rydym yn eu rheoleiddio i ddeall a oes tystiolaeth a allai fod yn addysgiadol i Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y tu hwnt i ofynion gorfodol. Bydd unrhyw ddarpariaeth o'r wybodaeth hon ar sail gydweithredol gan y byddai hyn y tu allan i unrhyw fframwaith rheoleiddio ffurfiol, ond gallai fod yn ddefnyddiol i lywio polisi a chymau gweithredu yn fwy cyffredinol yng Nghymru.

Deall eraill

I gyflawni'n effeithiol, rydym angen ymrwymiad ehangach gan fusnesau (o fusnesau bach a newydd i sefydliadau mawr a sefydledig) a'r gymdeithas, gan gydnabod bod canlyniadau cyffredinol yn cynyddu'r posibilrwydd o lwyddiant yn fawr iawn. Mae angen i ni gydnabod bod y sector busnes ei hun hefyd angen ymrwymiad gan ei gwsmeriaid, rhanddeiliaid, cymuned leol ac eraill a allai ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan y busnes. Cyfuniad o'r rhain i gyd sydd yn rhoi "trwydded i weithredu" i fusnes, sydd yn debygol o fod yn ehangach na diwallu ei rwymedigaethau cyfreithiol, a gallai'r cydbwysedd hwn fod yn wahanol yn dibynnu ar natur a maint y busnes.

Drwy ddeall y rheiny yr ydym yn gweithio gyda nhw drwy reoleiddio ffurfiol, byddwn yn gallu cael dealltwriaeth well o ran p'un a yw dulliau rheoleiddio anffurfiol eraill yn gallu cyflawni'r un canlyniadau, neu ganlyniadau gwell. Mae angen i ni hefyd ddeall ymddygiadau a natur y rheini yr ydym yn gweithio gyda nhw o ran eu maint, lleoliad, sector a risg posibl. Byddwn

⁵ Tystiolaeth Dda - Ein Strategaeth Rheoli Tystiolaeth a Chynllun Cyflawni 2014-2017, Gorffennaf 2014

yn cymryd rhan mewn sgysiau, yn datblygu cysylltiadau aeddfed, ac yn osgoi rhoi cyfarwyddiadau yn unig.

Byddwn yn ymgysylltu â'r sefydliadau a'r grwpiau hyn. Rydym eisoes yn gwneud hyn drwy nifer o fforymau busnes, a chymdeithasau masnach. Mae hyn hefyd yn darparu mecanwaith i sicrhau cyflawni rheoleiddio ffurfiol yn well, archwilio dulliau newydd, a meithrin dealltwriaeth briodol o lle nad yw rheoleiddio ffurfiol yn gweithio, naill ai ar gyfer busnesau neu ar gyfer y gymdeithas gyfan.

Deall ein hunain

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd ein hymddygiad yn bwysig o ran cyflawni canlyniadau. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau ac y cawn ein hystyried yn [angerddol](#) ac [uchelgeisiol](#), [disgybledig](#) ac [â ffocws](#), [dibynadwy](#) a [phroffesiynol](#), [cyfrifol](#) ac [atebol](#) ac yn defnyddio [synnwyr cyffredin](#). Yn ogystal â hynny, byddwn yn ddiuedd ac yn annibynnol o ran gwneud ein penderfyniadau ynghylch rheoleiddio ffurfiol.

Mae'r ffordd yr ydym yn ymddwyn, a'r cyfyngiadau a'r terfynau sydd gennym, yn rhoi dealltwriaeth i ni o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni. Bydd angen i ni fynd i'r afael â'r meysydd hynny lle mae ein hymddygiad yn amharu ar yr ymatebion hyblyg ac wedi'u teilwra sydd angen i ni eu gwneud i lwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Teclynnau (Egwyddorion 3 a 4)


Drwy ddeall eraill a deall ein hunain, a deall buddiannau a chymhellion y rhai y byddwn yn eu cyfarfod, byddwn yn teilwra ein dull yn briodol, gan ystyried y rheiny y byddwn yn ymgysylltu â nhw.

Yr ydym eisoes yn meddu ar ystod eang o declynnau sy'n rhoi rhywfaint o allu i ni wneud hyn, mae llawer ohonynt yn seiliedig ar y pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gennym yn ymwneud â rheoleiddio ffurfiol. Mae teclynnau eraill ar gael gan gynnwys newidiadau, cyngor ac arweiniad amgylcheddol, ymhlith eraill.

Mae'r "pecyn cymorth" hwn yn ymestyn tu hwnt i'r hyn y byddai rhai yn ei ystyried yn rheoleiddio⁶, a gellir ei rannu'n wahanol fathau. Mae sawl teipoleg ar gyfer y teclynnau hyn, ond rydym yn mabwysiadu fersiwn syml⁷.

⁶ Egwyddor 1 Cod Rheoleiddwyr - Dylai rheoleiddwyr gynnal eu gweithgareddau mewn modd sy'n cefnogi'r rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu.

⁷ Diffinnir y deipoleg hon yn y gwaith SNIFFER, "Gwell Tystiolaeth Rheoleiddio: Maes Testun 2 – Dewis a dylunio ymyriadau – Adroddiad Crynodeb Terfynol ER30" o fis Ebrill 2013. Ceir grwpiau eraill, gan gynnwys y rheiny sy'n deillio o waith yn cynnwys Defra a Cranfield University Centre for Environmental Risk and Futures. Caiff y rhain eu grwpio fel a ganlyn: Rheoleiddio Uniongyrchol, Offer Economaidd, Cyd-reoleiddio, Offer yn seiliedig ar Wybodaeth, Rheoleiddio Dinesig a Hunan Reoleiddio ac Adeiladu Capasiti a Chefnogaeth.




Mathau o reoleiddio ffurfiol ac anffurfiol. Efallai y bydd rhai dulliau yn cynnwys mwy nag un math

Rheoleiddio (ffurfiol)

O ystyried y ffocws hanesyddol ar ddefnyddio ymyriadau rheoleiddio ffurfiol, mae'r rhan fwyaf o'r ffyrdd presennol o weithio wedi'u hadeiladu o amgylch cyflawni'r rhain. Mae'r rhain yn ymwneud â thrwyddedu, cydymffurfiaeth, a gorfodi. Mewn blynyddoedd diweddar, gydag ystyriaeth ehangach o'r hyn sydd ar gael yn y pecyn cymorth rheoleiddio, mae hyn hefyd wedi cynnwys cyngor ac arweiniad fel dull rheoleiddio anffurfiol i gefnogi dulliau mwy ffurfiol.

Rydym yn gweithio gyda'r rhagdybiaeth sylfaenol bod y rhai yr ydym yn eu rheoleiddio am gydymffurfio gyda'r gyfraith, ac y bwriedir i'w ceisiadau am drwyddedau a'r camau dilynol mewn ymateb i amodau trwydded gyflawni hyn. Mae hyn yn gosod cyfrifoldeb ar ymgeiswyr a gweithredwyr i ddangos eu bod yn cydymffurfio. Efallai y bydd rhai angen helpu gyda hyn, ac mae gennym rôl bwysig o ran helpu ymgeiswyr a gweithredwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Fodd bynnag, bydd rhai hefyd nad ydynt yn ceisio cydymffurfio gyda'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae nifer o elfennau i reoleiddio ffurfiol, y gellir eu defnyddio i gyflawni canlyniadau drwy gydymffurfio â fframweithiau cyfreithiol.




Elfennau rheoleiddio ffurfiol

Trwyddedu - mae llawer o'r dulliau rheoleiddio ffurfiol yn nodi'r gofyn am ryw fath o drwydded yn y ddeddfwriaeth. Efallai na fydd yr union ffurflen wedi'i nodi, felly gall

gweithredu dulliau trwyddedu fod yn feichus, nid yn unig i'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau, ond i'r rhai sy'n eu cyflwyno hefyd.

Byddwn yn defnyddio dull trwyddedu sy'n adlewyrchu'r risg sy'n gysylltiedig â gweithgarwch yn briodol, fel y caniateir gan y ddeddfwriaeth. Byddwn yn gwthio'r trwyddedau i lawr yr hierarchaeth fel y bo'n briodol.



Lle nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft lle mae'r gofynion cyfreithiol yn pennu natur y drwydded yn fwy rhagnodol, byddwn yn edrych ar sut y byddwn yn gwthio elfennau o'r trwyddedau lawr yr hierarchaeth. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio rheolau wedi'u safoni neu reolau cyffredinol sydd wedi'u nodi mewn trwyddedau unigryw, gan adael i'r elfen unigryw adlewyrchu anghenion neu ofynion penodol i'r safle.

Byddwn hefyd yn cynnig helpu gweithredwyr neu'r sawl sy'n gwneud cais i ganfod lle, drwy wneud pethau'n wahanol, nad yw eu gweithgareddau yn gofyn am reolaethau cyfreithiol, gan fod y niwed posibl a allai gael ei achosi gan y gweithgareddau wedi'i leihau neu ei ddileu.

Lle rydym yn caniatáu hynny, byddwn yn cynnal gwaith cydymffurfio a gorfodi posibl. Bydd hyn yn seiliedig ar risg ond rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau eu bod yn cydymffurfio a'u hamodau. Lle mae tystiolaeth nad y dull trwyddedu yw'r ffordd orau i gyflawni canlyniadau polisi, yna byddwn yn ceisio gwella'r ddeddfwriaeth sy'n llywio hyn drwy drafod gyda'r Llywodraeth.

Byddwn yn sicrhau bod y rhai sydd â rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael help i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw. Mae angen arweiniad clir ac effeithiol ar hyn i'r rhai sy'n gwneud cais am ganiatâd. Felly byddwn yn sicrhau bod gennym arweiniad clir a chywir ar ba fath o drwydded sydd fwyaf priodol, a sut i wneud cais yn briodol ar gyfer hyn. Bydd hyn yn cynnwys esboniad ynghylch pam fod angen y wybodaeth y gofynnir amdani a pham ei bod yn angenrheidiol ac yn bwysig. Bydd hwn ar gael ochr yn ochr â ffurflenni cais clir, sy'n gofyn am y defnydd lleiaf o ymgynghorwyr i'w cwblhau. Byddwn yn hyblyg ynghylch defnyddio'r ffurflenni cais, lle mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn amlwg yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol (fel yr esboniwyd yn ein cyngor ac arweiniad).

Mae nifer o'r gweithdrefnau deddfwriaethol yn cynnwys cyfnodau penderfynu statudol, a byddwn yn cydymffurfio gyda'r rhain. Rydym hefyd yn cyhoeddi safonau gwasanaeth⁸, a gall ymgeiswyr ddisgwyl i ni gyflawni yn unol â'r safonau hyn. Gall fod adegau pan fydd angen i ni efallai wyro oddi wrth y rhain, er mwyn darparu gwell cynnyrch. Lle credwn i hyn fod yn wir, byddwn yn glir o ran pam, beth yw'r manteision, a phryd y disgwylir penderfyniad terfynol. Bydd yn rhaid cytuno ar unrhyw wyriad o'r safonau gwasanaeth gyda'r ymgeisydd. Ar y pegwn arall, rydym yn ymateb yn gadarnhaol lle mae gan ymgeisydd angen brys am drwydded (neu newid i drwydded), ac yn ceisio darparu ar gyfer hyn lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol.

Mae trwyddedu yn costio i'r ymgeisydd ac i ni. Efallai y bydd y costau'n heriol i rai ymgeiswyr, felly byddwn yn ceisio bod yn hyblyg o ran sut a phryd y telir ffioedd ymgeisio. Byddwn yn dal yn disgwyl taliad llawn cyn rhoi trwydded amgylcheddol.

Mewn perthynas â phob cais, rydym yn annog ymgysylltiad cynnar, i sicrhau bod gweithredwyr (a gweithredwyr posibl) yn cael y wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyflwyno cais priodol ac i gydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol.

Cydymffurfiaeth - rydym yn credu mewn cefnogi pobl i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, gan ddarparu ffyrdd i arddangos y gydymffurfiaeth honno.

Mae'r cam trwyddedu yn rhoi'r cyfle ffurfiol cyntaf i helpu pobl i gydymffurfio gyda'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Dyma beth fydd yn diffinio amodau cydymffurfio, felly mae'n rhaid i'r gofynion fod mor glir â phosibl. Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau yn newid, a'i bod yn bosibl na fydd yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael (neu'n gallu bod ar gael) ar adeg trwyddedu. Byddwn yn hyblyg i ymateb i'r amgylchiadau newidiol hyn drwy'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio cydymffurfiaeth â thrwyddedau'n ffurfiol. Rydym yn annog gweithredwyr i drafod eu problemau gyda ni, fel y gallwn ymateb yn briodol, gan gynnwys diweddarau a newid trwyddedau, lle gellir cyfiawnhau hynny.


Rydym yn cydnabod ei bod yn rhy hawdd i labelu rhywun fel gweithredydd "nad ydynt yn cydymffurfio". Gallai hyn arwain at ddull na fydd o reidrwydd y dull gorau o sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol. Bydd rhai gweithredwyr yn amharod i drafod unrhyw broblemau cydymffurfio sydd ganddynt, rhag ofn y byddant yn cael eu labelu, neu'n wynebu camau gorfodi posibl. Rydym eisiau cefnogi cydymffurfiaeth, felly drwy wybod pa broblemau y gallai rhai fod yn eu hwynebu, gallwn ddarparu arweiniad er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i ni gymryd camau gorfodi o hyd, ond efallai y bydd natur gorfodi o'r fath yn cael ei ddylanwadu gan agwedd gadarnhaol y gweithredwr i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae ein dull o asesu cydymffurfiaeth yn cydnabod bod angen perthynas aeddfed arnom â'r rheiny rydym yn eu rheoleiddio, ac mae'n ymwneud â nodi problemau a'u datrys.

Bydd ein dull gweithredu wrth ystyried "cydymffurfio", yn seiliedig ar sbectrwm cydymffurfio ac ymgysylltu, a bydd yn ymwneud ag annog a chefnogi gwelliant. Byddwn yn glir ynghylch lle mae cydymffurfiaeth gyfreithiol yn dod i ben⁹, a lle mae gwneud y peth iawn y tu hwnt i gyfrifoldeb cyfreithiol yn dechrau. Ni fyddwn yn gorfodi lle mae gweithredwyr yn methu â gwneud y peth cywir, y tu hwnt i'w cyfrifoldebau cydymffurfio cyfreithiol.

⁸ <http://naturalresources.wales/how-we-regulate-you/permit-applications-consultations-and-decisions/permitting-service-levels-in-natural-resources-wales>

⁹ Egwyddor 5 Cod y Rheoleiddwyr - Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod gwybodaeth, arweiniad a chynngor clir ar gael i helpu'r rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio i fodloni eu cyfrifoldebau i gydymffurfio.

Gall annog a chefnogi gwelliant elwa ar ddefnyddio teclynnau rheoleiddio anffurfiol eraill. Er enghraifft, dulliau economaidd drwy ein cynllun codi tâl a chymhellion, gan gydnabod gwerth cydymffurfio. Mae yna hefyd rôl sylweddol i wybodaeth (drwy gyngor ac arweiniad).



Teilwra dulliau i gydymffurfio¹⁰

Gorfodi – byddwn yn sicrhau bod ein polisi gorfodi ac erlyn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu ein dealltwriaeth o ymddygiadau'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio, a beth y gellir ei wneud i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Ym mhewn eithaf cydymffurfiaeth mae'r rheiny sydd yn anwybyddu'r gyfraith yn llwyr, neu'n mentro drwy osgoi cydymffurfio. Rydym yn cydnabod bod y rhai sy'n anwybyddu'r gyfraith yn weithredol yn cael effaith, nid yn unig ar bobl a'r amgylchedd, ond hefyd drwy niweidio cystadleurwydd busnesau cyfreithlon a'u gallu i dyfu. Felly, nid yn unig mae er ein budd i gael gwared ar y rhain, ond maen nhw hefyd er budd busnesau cyfreithiol eraill. Mae rôl glir (a budd) i'r sawl sy'n cydymffurfio ein helpu i ddelio â throeddwr, a byddwn yn ceisio'r cymorth a help hwn. Byddwn hefyd yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi eraill y gyfraith, gan fod troseddwr yn debygol o fod yn anwybyddu mwy na'r gyfraith amgylcheddol yn unig.

Mae'n bwysig bod yna ddealltwriaeth glir o'r gwaith gorfodi yr ydym wedi'i wneud a pha mor llwyddiannus y bu hyn. Byddwn felly yn cyhoeddi adroddiad blynyddol gorfodi sy'n disgrifio hyn.

Cydabyddiaeth – o gofio ein bod yn annog cydymffurfiaeth, ac yn helpu gweithredwr i gyflawni hyn, yna maen nhw angen cael eu gwobrwo. Lle gall gweithredwr ddangos cydymffurfiaeth (neu lle maen nhw wedi gwneud yn well yn wirfoddol), bydd hyn yn cael ei gydnabod. Mae ein cynllun codi tâl yn gwobrwo safleoedd sydd yn cydymffurfio'n dda iawn gyda gostyngiad yn y ffioedd a'r costau. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r defnydd o hyn wrth i ni ddatblygu ein cynllun codi tâl yn y dyfodol.

Efallai nad ydy'r hyn a gaiff ei ystyried fel gwobr neu gydnabyddiaeth yr un fath i'r holl weithredwr, a gallai dibynnu ar eu sbardun i gydymffurfio. Mae'n hanfodol, felly, i ni drafod gyda gweithredwr sydd yn cydymffurfio'n dda iawn i ddeall yn llawn pa gydnabyddiaeth a

¹⁰ Wedi'i gymryd o Sbectwm Ymgysylltu a Chydymffurfio SEPA.

gwobrau sydd yn gweithio iddyn nhw. Ochr yn ochr â chyhoeddi ein hadroddiad blynyddol gorfodi, byddwn hefyd yn rhoi enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi'i wneud i gydnabod perfformiad eithriadol.



Sbardun i gwmnïau gydymffurfio¹¹

Cyngor a chanllawiau ar gyfer rheoleiddio ffurfiol – rydym wedi etifeddu corff mawr o ganllawiau gan ein hen gyrrff o ran ein rheoleiddio ffurfiol. Mae hyn yn debygol o amrywio o “hynod werthfawr” i “gymhleth a di-fudd”. Gan ein bod yn defnyddio dulliau wedi’u teilwra yn fwyfwy, mae her yn dal i fodoli i ni sicrhau corff o ddeunyddiau clir, hygyrch a chryno sy’n ddefnyddiol i bawb. Rydym wedi ymrwymo i hyn, a byddwn yn ceisio gweithio gydag eraill i ddatblygu’r corff hwn o ddeunyddiau, gan ddefnyddio cyd-gynhyrchu neu atgyfeirio i eraill lle bo hynny’n briodol ac yn synhwyrol. Byddwn hefyd yn ymgysylltu gyda’r rhain yr ydym yn eu rheoleiddio’n ffurfiol er mwyn deall yn iawn pa fath o arweiniad sydd ei angen arnyn nhw mewn gwirionedd i’w helpu i gydymffurfio gyda’r gofynion cyfreithiol, ac ar ba ffurf, gan gydnabod fod angen i hyn hefyd gael ei gyflwyno mewn modd fforddiadwy.

Apêl anffurfiol – mae mecanweithiau rheoleiddio ffurfiol i’r cyfundrefnau rheoleiddiol ffurfiol sy’n llywio’r ddeddfwriaeth. Gall y rhain fod yn feichus, neu’n ffordd anghymesur o ymdrin â phryderon y gallai gweithredwr neu ymgeisydd eu cael ynglŷn â phenderfyniad a wnaed gennym.

Byddwn felly yn darparu llwybr apelio anffurfiol i godi pryderon o’r fath, a gwneir hyn yn glir i’r rhai rydym yn eu rheoleiddio’n ffurfiol, ac i’r rhai yr ydym yn cymryd camau gorfodi yn eu herbyn. Nid yw hyn yn atal nac yn disodli unrhyw rai o’r mecanweithiau apelio ffurfiol.

Economaidd ac yn seiliedig ar y farchnad

Yn ogystal â dulliau rheoleiddio ffurfiol, ceir amrywiaeth o declynnau economaidd a theclynnau sy’n seiliedig ar y farchnad. Gall deddfwriaeth lywio rhai o’r rhain, ac felly gellir eu hystyried fel dulliau rheoleiddio ffurfiol. Efallai bod angen dulliau a chymhellion yn seiliedig ar y farchnad lle nad yw’r rhain yn bodoli eisoes, neu lle nad ydynt yn effeithiol.

Gall yr hyblygrwydd yn ymwneud â’r offerynnau economaidd ffurfiol hynny gael eu cyfyngu gan deddfwriaeth. Mae eraill yn darparu potensial i sbarduno newid, fel talu am wasanaethau ecosystemau a chostau amgylcheddol.

Talu am Wasanaethau Ecosystem (PES) – mae hwn yn faes datblygu sydd wedi’i nodi fel ymyriad economaidd ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol fel ffordd o ddelio gyda’r datgysylltiad posibl rhwng y rhai sy’n ymgymryd â gwaith i gyflawni canlyniadau (a chreu costau), a’r rhai sy’n elwa o gyflawni canlyniadau o’r fath.

¹¹ Atodiad 9, “Adroddiad Archwilio Dulliau Ategol o Arolygu Amgylcheddol er mwyn Sicrhau Cydymffurfiaeth”, IMPEL, Mis Mai 2012

Cynllun Codi Tâl - ffurf arall ar offeryn economaidd yw ein cynllun codi tâl ein hunain. Ar hyn o bryd, mae hyn ar ffurf debyg i'r rheiny a fabwysiadwyd gan yr hen gyrff a greodd CNC. Mae rhai newidiadau ar waith yn y cynllun ar hyn o bryd er mwyn adlewyrchu'r gwaith yr ydym ni'n ei wneud. Fodd bynnag, byddwn yn edrych ar natur a ffurf ein cynllun codi tâl. Bydd hyn yn cydnabod yr angen i allu adennill costau'r gwaith a wnawn, ond hefyd y dull gwahanol y byddwn yn ei ddefnyddio, ac y gallai'r math o ymyrraeth sy'n rhan o hyn gynnwys gwaith y tu allan i ddulliau rheoleiddio ffurfiol sydd yn denu ffioedd a thaliadau ar hyn o bryd. Mae angen i hyn hefyd adlewyrchu ein dull gweithredu mewn perthynas â chydymffurfiaeth, ac y byddem yn edrych i gymell cydymffurfio amlwg.

Gwirfoddol ac yn seiliedig ar wybodaeth / cyfathrebu

Ceir nifer o fathau o ymyrraeth o dan y ddau bennawd hyn sydd o ddiddordeb a bydd angen gwaith pellach i ddeall eu defnydd, lle mae'r rhain yn fwyaf effeithiol a sut i sicrhau y gellir eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor ac arweiniad tu hwnt i hynny sy'n gysylltiedig â rheoleiddio ffurfiol.

Gallai cyngor ac arweiniad rheoleiddio anffurfiol fod yn gysylltiedig â mesurau ataliol, neu gyngor cyn fframweithiau cyfreithiol ffurfiol. Bydd ein dull o roi cyngor ac arweiniad yn adlewyrchu angen a fforddiadwyedd. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni fod yn hyblyg ynghylch cyflawni, gan sicrhau y gellir datblygu hyn mewn ffordd sy'n fforddiadwy i ni, ac yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n ei ddefnyddio.


Defnyddio'r teclynnau rheoleiddio

Wrth ystyried defnydd mathau o declynnau, a sut i'w defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon, mae'n bwysig ein bod yn myfyrio ar y canlyniadau a geisir. Mae'r risg bod edrych ar sbarduno effeithlonrwydd cyflawni un teclyn (neu fath o declyn) yn gallu arwain at ganlyniadau mewn manau eraill (drwy ddisodli baich o un teclyn i'r llall) yn bod o hyd, neu fethu â chydabod gwerth ymyriadau eraill. Er enghraifft, gallai ymyrraeth gynnar ac atal drwy reoleiddio anffurfiol ddileu neu gyfyngu ar y gofynion am reoleiddio ffurfiol, ac felly sicrhau mwy o fanteision na chanolbwyntio ar reoleiddio ffurfiol yn unig.

Dyma lle mae ystyried rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn allweddol, gan fod hyn yn rhoi'r darlun eang hwnnw o'r canlyniad a geisir.

Ble, pryd, pwy?

Yn ogystal ag ystyried y pecyn cymorth, mae angen i ni hefyd ystyried pryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd. Efallai y bydd hyn yn ehangu'r potensial i ddefnyddio dulliau rheoleiddio anffurfiol, cyn i ddatblygiadau, neu'r defnydd o adnoddau naturiol, gael eu gosod yn y fframweithiau rheoleiddio cyfreithiol a ffurfiol.



Pryd allai fod yr amser gorau i ymyrryd?

Mae'n gwneud synnwyr ymyrryd cyn gynted â phosibl, ond mae angen i adnoddau fod ar gael er mwyn gwneud hynny. Byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ymyrryd yn gynnar a beth mae hyn yn ei olygu o ran sut yr ydym yn gweithio (neu'n gweithio gydag eraill) a sut y dylid ariannu hyn.

Risg a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer beth yr ydym yn ei wneud

Ni fyddwn yn gallu gwneud yr holl bethau posibl y gellir gofyn i ni eu gwneud, ac ni allwn wneud hynny byth. Mae angen mecanwaith arnom, felly, sy'n cynnig ffordd i ni flaenoriaethu ein gwaith. Un mecanwaith o'r fath yw edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio ag ymyrryd a cheisio ymgymryd â rhyw fath o reoleiddio ffurfiol neu anffurfiol i liniaru hyn.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg¹², ond rydym hefyd yn cydnabod bod angen ymgymryd â'r dull gweithredu hwn yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Felly, mae angen inni ddatblygu ein dull risg ymhellach, a oedd yn hanesyddol yn canolbwyntio ar risgiau amgylcheddol ar wahân i risgiau cymdeithasol ac economaidd. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'n sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y dulliau y byddwn yn eu defnyddio.

Nid yw hyn yn ymwneud â gwanhau'r rheoleiddio ffurfiol angenrheidiol ar gyfer materion â risg uchel, ond yn fecanwaith i helpu i ganfod lle mae'r blaenoriaethau, a lle gellir defnyddio ymyriadau effeithiol yn y ffordd fwyaf effeithlon, gan ddefnyddio arian y cyhoedd ac incwm gan y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio'n ffurfiol.

¹² Egwyddor 3 Cod y Rheoleiddwyr - Dylai rheoleiddwyr seilio eu gweithgareddau rheoleiddio ar risg.

Mae llawer o'n gweithgareddau rheoleiddio ffurfiol yn cymryd hyn i ystyriaeth, ond byddwn yn ymestyn hyn i weithgareddau nad ydynt yn berthnasol yn llawn eto. Mae angen i'n dull sy'n seiliedig ar risg fod yn gyson ar draws ein gweithgareddau rheoleiddio ffurfiol, fel y gallwn dargedu gweithgareddau sy'n peri'r risg mwyaf. Byddwn yn adolygu ein dull tuag at risg, ac yn sicrhau fod penderfyniadau yn ymwneud â hyn yn gyson ar draws yr holl gyfundrefnau deddfwriaethol a'r ddaearyddiaeth.

Trefniadaeth (Egwyddorion 5, 6 a 7)

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg ac mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau, ac yn cynnig y gwerth gorau am arian. Mae angen i ni hefyd weithio mewn ffordd sy'n fforddiadwy yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae hyn yn golygu bod angen inni gael y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn ac sydd â'r hyder i ddefnyddio'r teclynnau sydd ar gael. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym y sgiliau cywir ac yn cefnogi datblygu a chynnal y sgiliau hyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob un sy'n gweithio ym maes rheoleiddio ffurfiol yn deall egwyddorion rheoleiddio da a Chod y Rheoleiddwyr yn llawn. Mae angen i ni hefyd weithio gydag eraill pan fydd eu sgiliau a'u teclynnau nhw yn cyflawni'r canlyniad gorau.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn hyblyg yn ein ffyrdd o weithio, gan sicrhau ein bod yn cynnal arbenigedd a sgiliau, tra ein bod hefyd yn gallu ymateb yn y ffordd integredig angenrheidiol er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd y ffyrdd o weithio yn adlewyrchu maint yr heriau fel y'u hadlewyrchir yn y Datganiadau Ardal, a dylai hyn annog mwy o benderfyniadau lleol a chydweithio. Bydd ein hymateb hyblyg yn ystyried amcanion tymor hir, ond bydd yn gallu ymateb i newid. I wneud hyn byddwn yn adolygu ein prosesau a'n harferion presennol i sbarduno effeithlonrwydd (gan arbed arian i dalwyr ffioedd a threthdalwyr), a gwella effeithiolrwydd.

Byddwn yn ofalus ein bod yn deall yr effeithiau ehangach ar ein busnes a'r rhai rydym yn eu rheoleiddio yn ffurfiol lle rydym yn ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd elfennau ar y ffordd rydym yn gweithio. Ni fyddwn yn rhoi newid ar waith sydd yn disodli beichiau neu gostau yn unig.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn adennill ein holl gostau rheoleiddio. Byddwn yn sicrhau y defnyddir incwm o ffioedd a thaliadau yn unig i gynnal gweithgareddau rheoleiddio ffurfiol fel y caniateir o dan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Ochr yn ochr â'r 'Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon', byddwn yn cyhoeddi adroddiad manylach ar incwm, gweithgarwch a gwariant rheoleiddio. Bydd hyn hefyd yn rhoi'r llwybr i ni ar gyfer adrodd ar ein cynnydd o ran gwella ein dulliau, beth yr ydym yn ei wneud i leihau beichiau rheoleiddio ffurfiol ac annog cydymffurfiaeth a thwf.

Cyfathrebu (Egwyddor 8)

Mae'n bwysig ein bod yn gallu esbonio'n glir beth yr ydym yn ei wneud, a pham, a'n bod yn agored ac yn dryloyw. Byddwn hefyd yn cynnig mecanwaith clir i ddefnyddio llwybrau anffurfiol i apelio yn erbyn y penderfyniadau hynny¹³.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwefan fel ei bod yn ystyrlon ac yn syml i ddefnyddwyr, er mwyn iddyn nhw allu dod o hyd i'r hyn maen nhw ei eisiau, a bod yn hyderus

¹³ Egwyddor 2 Cod y Rheoleiddwyr – Dylai'r rheoleiddwyr ddarparu ffyrdd syml a didrafferth o ymgysylltu â'r rhai maen nhw yn eu rheoleiddio a chael eu barn.

bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn gywir. I ategu hyn, byddwn yn defnyddio bwletinâu electronig a ffyrdd eraill o gyfathrebu wedi'u targedu.

Byddwn yn cynnal ac yn diweddarau'r strategaeth gyfathrebu, sy'n nodi'r llwybr mwyaf priodol i rannu ac i gyfathrebu gwybodaeth gyda'r amrywiaeth eang o rai rydym yn eu rheoleiddio'n ffurfiol. Bydd hyn yn adlewyrchu anghenion penodol y sectorau fel mentrau bach neu ganolig, coedwigaeth neu'r sector ffermio.

Byddwn hefyd yn glir o ran ein safonau gwasanaeth a beth y gallwch ei ddisgwyl oddi wrthym ni¹⁴, yn ogystal â bod yn glir ynghylch beth y disgwyliwn gan y rhai sy'n cael eu rheoleiddio'n ffurfiol gennym.

I'n helpu i ddeall pa mor llwyddiannus ydym, byddwn yn ceisio adborth drwy broses o ymgysylltu gyda'r gymuned sy'n cael ei rheoleiddio. Byddwn hefyd yn ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach a allai gael ei heffeithio gan weithgareddau yr ydym yn eu rheoleiddio'n ffurfiol. Mae'r ddau hyn yn cynnig llwybr gwerthfawr i ddeall p'un a ydym yn gwneud y peth iawn. Byddwn felly hefyd yn adrodd ar ba fath o adborth a gawsom, a beth yw ein hymateb i hyn.

Cyflawni egwyddorion rheoleiddio da

Mae'r pum egwyddor rheoleiddio da yn datgan y dylai unrhyw reoleiddio fod yn: [dryloyw](#), [atebol](#), [cymesur](#), [cyson](#), ac [wedi'i dargedu](#). Byddwn yn cymhwyso'r egwyddorion rheoleiddio da, a chredwn y bydd cyflawni Cod y Rheoleiddwyr yn ein helpu i gyflawni'r Egwyddorion Rheoleiddio (Atodiad 2). Rydym wedi cael ein hadolygu gan y Swyddfa Rheoliadau Gwell (BRDO) ac rydym yn ymateb i'r awgrymiadau a wnaed yn eu hadroddiad.

Mae adroddiad y BRDO yn argymhell fod *“CNC yn parhau i weithio i ddatblygu eu dull strategol o reoleiddio ac i adeiladu set o egwyddorion rheoleiddio unigryw a gweledigaethol sy'n adlewyrchu ethos CNC fel rheoleiddiwr newydd, ac sydd yn ymatebol i angen y rheiny mae'n eu rheoleiddio”*. Credwn fod y ddogfen hon yn darparu ein gweledigaeth ac yn adlewyrchu ein hethos.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwaith sydd angen ei wneud i ymgorffori hyn yn ein sefydliad, ac adeiladu ar ein cymhwysedd. Nid yw hyn yn ymwneud â Chod y Rheoleiddwyr a'n Hegwyddorion Rheoleiddio yn unig. Mae hyn hefyd yn cynnwys amcanion ehangach o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer sut yr ydym yn gweithio, a beth yr ydym yn ei wneud. Mae gan reoleiddio da rôl allweddol i'w chwarae yn hyn.

Adborth

Os hoffech roi unrhyw adborth, sylwadau, awgrymiadau neu syniadau ar ôl darllen y ddogfen hon, gallwch anfon y rhain at: regulatory.principles@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

¹⁴ Egwyddor 6 Cod y Rheoleiddwyr - Dylai rheoleiddwyr sicrhau fod eu hymagwedd at weithgareddau rheoleiddio yn dryloyw.

Atodiad 1 - Rhaglenni Tystiolaeth

Rhaglen Un DEFRA - Cynlluniau Gweithredu Tystiolaeth

Gan gydnabod bod Rhaglen Un DEFRA yn cwmpasu Cymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau gwell cyfranogiad ac ymgysylltiad yn y Cynlluniau Gweithredu Tystiolaeth sy'n disgrifio'r meysydd tystiolaeth dan sylw.

Mae gan ymgysylltu a dylanwadu ar hyn drwy Lywodraeth Cymru y potensial i roi mynediad at y cyllid sydd ar gael gan Raglen Un DEFRA, neu ddylanwadu ar y rhai sy'n elwa o'r rhaglen hon.

IMPEL

Mae IMPEL yn gymdeithas ryngwladol nad yw'n gwneud elw o awdurdodau amgylcheddol Aelod-wladwriaethau'r UE, gwledydd sydd wedi'u derbyn i'r Undeb Ewropeaidd ac sydd wedi gwneud cais i gael eu derbyn i'r Undeb Ewropeaidd, gwledydd EEA ac EFTA. Mae'r gymdeithas wedi'i chofrestru yng Ngwlad Belg ac mae ganddi 47 aelod o 33 o wledydd gan gynnwys holl Aelod-Wladwriaethau'r UE, cyn Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia, Twrci, Gwlad yr Iâ, Norwy a'r Swistir.

Sefydlwyd IMPEL yn 1992 fel rhwydwaith anffurfiol o reoleiddwyr ac awdurdodau Ewropeaidd sy'n ymwneud â gweithredu a gorfodi cyfraith amgylcheddol.

Nod y Rhwydwaith yw creu hwb angenrheidiol yn y Gymuned Ewropeaidd i wneud cynnydd ar sicrhau defnydd mwy effeithiol o ddeddfwriaeth amgylcheddol. Mae IMPEL yn hwyluso codi ymwybyddiaeth, meithrin gallu a chyfnewid gwybodaeth a phrofiadau ar weithredu, gorfodi a chydweithredu gorfodi rhyngwladol yn ogystal â hyrwyddo a chefnogi ymarferoldeb a gorfodadwyedd deddfwriaeth amgylcheddol Ewropeaidd.

Mae meysydd pwnc IMPEL yn cynnwys: rheoleiddio diwydiant, gwastraff, dŵr, ansawdd aer, cludo gwastraff yn drawsffiniol, asesiad effaith amgylcheddol, natur a bywyd gwyllt.

Rhaglen Tystiolaeth Rheoleiddio Asiantaethau Cyffredin

Mae Rhaglen Tystiolaeth Reoleiddiol Asiantaethau Cyffredin (ShARE) yn rhaglen newydd sy'n cynnwys pump rheoleiddiwr amgylcheddol. Y rheoleiddwyr hyn yw Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA), Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd Gwyddelig (Irish EPA), ac fe'i gelwir "Y Pum Asiantaeth".

Diben y Rhaglen ShARE yw creu fframwaith hyblyg ar gyfer cydweithredu tystiolaeth y Pum Asiantaeth ym maes rheoleiddio. Ei hamcan yw cyflwyno tystiolaeth wedi'i rheoleiddio o anghenion cyffredin yn y diwydiant, lle mae'n fwyaf effeithiol ac effeithlon i weithio ledled y DU ac Iwerddon.

Prosiect "Make it Work"

Mae Prosiect *Make it Work* yn fenter gan yr Iseldiroedd (y Weinyddiaeth Seilwaith a'r Amgylchedd), y DU (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) a'r Almaen (Gweinyddiaeth Ffederal yr Amgylchedd, Cadwraeth Naturiol, Diogelwch Niwclear ac Adeiladu) i sefydlu fforwm i drafod dulliau strategol, ehangach tuag at gyfraith amgylcheddol fwy craff yn yr UE. Mae'r prosiect yn ceisio nodi cyfleoedd i wella ansawdd cyfraith amgylcheddol yr UE yn systematig a thrwy hynny helpu i gyflawni manteision sy'n

gysylltiedig â'r gyfraith tra'n darparu mwy o chwarae teg ar draws yr UE. Yn benodol, mae'n anelu at sefydlu fframwaith mwy cydlynol a chyson ar gyfer *acquis*¹⁵ amgylcheddol yr EU drwy ddatblygu canllawiau ynglŷn â defnyddio offerynnau a gweithdrefnau trawsbynciol yng nghyfarwyddebau a rheoliadau amgylcheddol yr UE.

Byddwn yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw fewnbwn i'r prosiect hwn a hefyd drwy IMPEL sydd hefyd yn cymryd rhan yn y prosiect penodol hwn, ac sydd â buddiant ynddo.

¹⁵ *Aquis* amgylcheddol - mae hyn yn cyfeirio at y casgliad o'r holl ddeddfau amgylcheddol. Yn Ffrangeg mae'r term *acquis* yn golygu "yr hyn y cytunwyd arno".

Atodiad 2 - Cod y Rheoleiddwyr a'n Hegwyddorion Rheoleiddio

Egwyddorion Rheoleiddio	Elfennau Cod y Rheoleiddwyr
<p>1. Cyflawni Canlyniadau Rydym yn ceisio cyflawni canlyniadau amgylcheddol, nid cyflawni rheoleiddio'n unig, ond ceisio cyflawni canlyniadau cyffredin lle bo hynny'n bosibl.</p>	<p>3.5 - Dylai rheoleiddwyr adolygu effeithiolrwydd eu gweithgareddau rheoleiddio dewisol o ran cyflawni'r canlyniadau dymunol a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yn unol â hynny</p>
<p>2. Bod yn ddeallus Dylem ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael o amrywiaeth o ffynonellau, a cheisio sicrhau bod y data y byddwn yn ei gasglu gan y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio yn cyfrannu at y dystiolaeth i lywio'r camau i gyflawni canlyniadau.</p>	<p>3.1 - Dylai rheoleiddwyr fabwysiadu ymagwedd yn seiliedig ar dystiolaeth i benderfynu ar y risgiau blaenoriaeth yn eu maes cyfrifoldeb, a dylent ddyrannu adnoddau lle y byddan nhw fwyaf effeithiol o ran mynd i'r afael â'r risgiau blaenoriaeth hynny.</p> <p>3.2 - Dylai rheoleiddwyr ystyried risg ar bob cam yn eu prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys dewis y math mwyaf priodol o ymyriad neu ffordd o weithio gyda'r rheiny sy'n cael eu rheoleiddio; targedu archwiliadau ar gydymffurfio; ac wrth gymryd camau gorfodi.</p> <p>4.1 - Gyda'i gilydd dylai rheoleiddwyr ddilyn yr egwyddor o "gasglu unwaith, defnyddio sawl gwaith" wrth ofyn am wybodaeth gan y rhai maen nhw'n eu rheoleiddio.</p> <p>4.2 - Pan fo'r gyfraith yn caniatáu, dylai rheoleiddwyr gytuno ar fecanweithiau cadarn i rannu gwybodaeth â'i gilydd am fusnesau a chyrrff eraill maen nhw'n eu rheoleiddio, i helpu i dargedu adnoddau a gweithgareddau ac osgoi dyblygu.</p>
<p>3. Bod yn barod i herio Byddwn yn herio'r ac yn mynd i'r afael â rhwystrau lle nad ydym nhw'n cyfrannu at y canlyniad amgylcheddol.</p>	<p><i>Nid oes elfennau amlwg yng Nghod y Rheoleiddwyr sy'n cefnogi hyn yn uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y DU yn edrych ar hyn drwy adolygiadau eraill, gan gynnwys "Her Biwrocratiaeth" Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, credwn ei bod yn parhau i fod yn bwysig i asesu'r holl declynnau a dulliau'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac asesu cyflawniad yn erbyn canlyniadau, a cheisio rhoi sylw i unrhyw faterion, hyd yn oed os mai dim ond drwy sicrhau fod y Llywodraeth yn ymwybodol o'r materion a'r dystiolaeth sydd yn cefnogi hyn.</i></p>
<p>4. Defnyddio'r ystod lawn o declynnau sydd ar gael Rydym yn ceisio defnyddio ystod eang o declynnau, sydd wedi'u dewis am eu heffeithiolrwydd o ran cyflawni canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r gyfraith i ddelio â rhai sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, i warchod busnes onest, y gymdeithas a'r amgylchedd.</p>	<p>5.1 - Dylai rheoleiddwyr roi cyngor ac arweiniad sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo'r rhai maen nhw'n eu rheoleiddio i ddeall a diwallu eu cyfrifoldebau. Wrth roi cyngor ac arweiniad, dylid gwahaniaethu gofynion cyfreithiol oddi wrth arfer da a argymhellir, a dylid ystyried effaith y cyngor a'r arweiniad fel nad yw yn gosod beichiau diangen ynddo'i hun.</p> <p>5.2 - Dylai rheoleiddwyr gyhoeddi canllawiau, a gwybodaeth mewn fformat clir, cryno a hygyrch, gan ddefnyddio cyfryngau priodol i'r gynulleidfa darged ac ysgrifennu mewn iaith syml ar gyfer y gynulleidfa.</p> <p>5.5 - Wrth ymateb i geisiadau am gyngor, darparu'r cyngor angenrheidiol i gefnogi cydymffurfiaeth ddylai pryder sylfaenol rheoleiddiwr fod, ac i sicrhau y gellir dibynnu ar y cyngor.</p>
<p>5. Bod yn hyblyg</p>	<p>1.1 - Dylai rheoleiddwyr osgoi gosod beichiau rheoleiddio diangen drwy eu gweithgareddau rheoleiddio a dylent asesu a ellid cyflawni canlyniadau cymdeithasol,</p>

Egwyddorion Rheoleiddio	Elfennau Cod y Rheoleiddwyr
<p>Rydym yn ceisio bod yn hyblyg a theilwra'r dull i anghenion y sawl sy'n ei dderbyn, gan ddefnyddio dulliau arloesol a gwreiddiol lle bo'n briodol a dysgu o brofiad y gorffennol.</p>	<p>amgylcheddol ac economaidd tebyg drwy dulliau llai beichus. Dylai rheoleiddwyr ddewis dulliau cymesur i'r rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio, yn seiliedig ar ffactorau perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, maint y busnes a gallu.</p> <p>1.2 - Wrth gynllunio ac adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithredol, dylai rheoleiddwyr ystyried sut y gallent gefnogi neu alluogi twf economaidd ar gyfer busnesau sy'n cydymffurfio ac endidau a reoleiddir, er enghraifft, drwy ystyried sut y gallant wneud y canlynol orau: deall a lleihau effeithiau economaidd negyddol eu gweithgareddau rheoleiddio; lleihau costau cydymffurfio ar gyfer y rhai maen nhw'n eu rheoleiddio; gwella hyder mewn cydymffurfiaeth ar gyfer y rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio; annog a hyrwyddo cydymffurfiaeth.</p> <p>3.4 - Wrth gynnal eu hasesiad risg, dylai rheoleiddwyr gydnabod record cydymffurfio'r rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio, gan gynnwys defnyddio dulliau cydnabyddiaeth wedi'i ennill a dylent ystyried yr holl ddata perthnasol sydd gael ar gydymffurfio, gan gynnwys tystiolaeth o wirio allanol perthnasol.</p> <p>5.1 - Dylai rheoleiddwyr roi cyngor ac arweiniad sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo'r rhai maen nhw'n eu rheoleiddio i ddeall a diwallu eu cyfrifoldebau. Wrth roi cyngor ac arweiniad, dylid gwahaniaethu gofynion cyfreithiol oddi wrth arfer da a argymhellir, a dylid ystyried effaith y cyngor a'r arweiniad fel nad yw'n gosod beichiau diangen ynddo'i hun.</p> <p>5.2 - Dylai rheoleiddwyr gyhoeddi canllawiau, a gwybodaeth mewn fformat clir, cryno a hygyrch, gan ddefnyddio cyfryngau priodol i'r gynulleidfa darged ac ysgrifennu mewn iaith syml ar gyfer y gynulleidfa.</p> <p>5.3 - Dylai rheoleiddwyr gael mecanweithiau ar waith i ymgynghori â'r rhai maen nhw'n eu rheoleiddio mewn perthynas â chanllawiau y maent yn eu cynhyrchu i sicrhau ei fod yn bodloni eu hanghenion.</p> <p>5.4 - Dylai rheoleiddwyr geisio creu amgylchedd lle mae gan y rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio hyder yn y cyngor y maen nhw'n ei dderbyn ac yn teimlo y gallan nhw ofyn am gyngor heb ofni sbarduno camau gorfodi.</p> <p>5.5 - Wrth ymateb i geisiadau am gyngor, darparu'r cyngor angenrheidiol i gefnogi cydymffurfiaeth ddylai pryder sylfaenol rheoleiddiwr fod, ac i sicrhau y gellir dibynnu ar y cyngor.</p>
<p>6. Dwyn y sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd Rydym yn ceisio sicrhau bod gennym y sgiliau i ddefnyddio'r offer cywir yn effeithiol, neu geisio mynediad at y rheiny a chanddynt y sgiliau cywir a gweithio gyda nhw.</p>	<p>1.3 - Dylai'r rheoleiddwyr sicrhau fod gan eu swyddogion y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi'r rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio, gan gynnwys dealltwriaeth am y rhai maen nhw'n eu rheoleiddio sy'n eu galluogi i ddewis dulliau cymesur ac effeithiol.</p> <p>1.4- Dylai'r rheoleiddwyr sicrhau bod eu swyddogion yn deall egwyddorion statudol rheoleiddio da a'r Cod hwn, a sut mae'r rheoleiddiwr yn cyflawni ei weithgareddau yn unol â hwy.</p> <p>5.6- Dylai rheoleiddwyr gael mecanweithiau i gydweithio i helpu'r rheiny sy'n cael eu rheoleiddio gan fwy nag un rheoleiddiwr. Dylai'r rheoleiddwyr ystyried cyngor a roddir gan rheoleiddwyr eraill ac, os oes anghytundeb ynghylch y cyngor a ddarparwyd, dylid trafod hyn gyda'r rheoleiddiwr arall i ddod i gytundeb.</p>
<p>7. Bod yn effeithlon ac yn effeithiol <i>Byddwn yn ceisio cyflawni mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gweithio gydag eraill lle y gallwn, a lle mae hyn yn beth da i'w wneud.</i></p>	<p>6.1 - Dylai rheoleiddwyr gyhoeddi set o safonau gwasanaeth clir, sy'n nodi'r hyn y dylai'r rhai maen nhw'n eu rheoleiddio ddisgwyl ganddynt.</p> <p>6.2 - Dylai safonau gwasanaeth cyhoeddedig rheoleiddwyr gynnwys gwybodaeth glir am:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) sut maen nhw'n cyfathrebu gyda'r rhai maen nhw'n eu rheoleiddio a sut gellir cysylltu â nhw; b) eu dull o ddarparu gwybodaeth, canllawiau a chyngor; c) eu dull o archwilio cydymffurfiaeth gan gynnwys manylion y fframwaith asesu risg a ddefnyddir i dargedu'r gwiriadau hynny a phrotocolau ar gyfer eu cynnal, gan

Egwyddorion Rheoleiddio	Elfennau Cod y Rheoleiddwyr
	<p>nodi'n glir beth y dylai'r rhai maen nhw'n eu rheoleiddio ei ddisgwyl; (Gan gynnwys ymweliadau arolygu, archwilio, monitro a samplu a phryniannau prawf);</p> <p>d) eu polisi gorfodi, gan esbonio sut maen nhw'n ymateb i ddiffyg cydymffurfio;</p> <p>e) eu ffioedd a'u costau, os o gwbl. Dylai'r wybodaeth hon esbonio ar ba sail mae'r rhain yn cael eu cyfrifo'n amlwg, a dylai gynnwys eglurhad o p'un a fydd cydymffurfio yn effeithio ffioedd a chostau; a</p> <p>f) sut i wneud sylwadau neu gwyno am y gwasanaeth a ddarperir a llwybrau i apelio.</p> <p>6.3 - Dylai'r wybodaeth a gyhoeddir i fodloni gofynion y Cod hwn fod yn hygyrch, gan gynnwys bod ar gael ar un pwynt ar wefan y rheoleiddiwr sy'n cael ei nodi'n glir, a dylid ei chadw'n gyfredol.</p> <p>6.5 - Dylai rheoleiddwyr gyhoeddi manylion eu perfformiad yn erbyn safonau eu gwasanaeth yn rheolaidd, gan gynnwys adborth a gafwyd gan y rhai maen nhw'n eu rheoleiddio, megis arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid a data sy'n ymwneud â chwynion amdanynt ac apelau yn erbyn eu penderfyniadau.</p>
<p>8. Bod yn glir ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham Byddwn yn ceisio sicrhau bod pawb yn deall rôl a diben y rheoleiddiwr a beth yw ein canlyniadau, yn y fath fodd fel ei bod yn hawdd gweld y cysylltiad rhwng yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham ac i sefydlu dull cyson.</p>	<p>2.1 - Dylai rheoleiddwyr gael mecanweithiau ar waith i annog y rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio, dinasyddion ac eraill i gynnig barn a chyfrannu at ddatblygu eu polisiau a'u safonau gwasanaeth. Cyn newid polisiau, arferion neu safonau gwasanaeth, dylai rheoleiddwyr ystyried yr effaith ar fusnes ac ymgysylltu â chynrychiolwyr busnes.</p> <p>2.2 - Wrth ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth maen nhw'n ei ganfod, dylai rheoleiddwyr esbonio'n glir beth yw'r eitem neu'r gweithgaredd nad yw'n cydymffurfio, y cyngor a roddir, camau gweithredu gofynnol neu benderfyniadau, a'r rhesymau dros hyn. Dylai rheoleiddwyr roi cyfle i drafod mewn perthynas â'r cyngor, gofynion neu benderfyniadau, gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd sydd yn gymesur ac yn gyson. <i>(Nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol lle gall y rheoleiddiwr ddangos bod angen camau gorfodi ar unwaith i atal neu ymateb i doriad difrifol neu lle byddai darparu cyfle o'r fath yn debygol o fod yn groes i bwrpas y camau gorfodi arfaethedig.)</i></p> <p>2.3 - Dylai rheoleiddwyr ddarparu llwybr diduedd sydd wedi'i esbonio'n glir i apelio yn erbyn penderfyniad rheoleiddio neu fethiant i weithredu yn unol â'r Cod hwn. Ni ddylai swyddogion unigol y rheoleiddiwr a gymerodd y penderfyniad neu'r camau gweithredu y gwneir yr apêl yn eu herbryn gymryd rhan yn y broses o ystyried yr apêl. Dylid cyhoeddi'r llwybr hwn i apelio i'r rheiny sydd yn cael eu rheoleiddio.</p> <p>2.4 - Dylai rheoleiddwyr roi esboniad amserol yn ysgrifenedig o unrhyw hawl i gynrychiolaeth neu hawl i apelio. Dylai'r esboniad hwn fod mewn iaith glir a dylai gynnwys gwybodaeth ymarferol am y broses.</p> <p>2.5 - Dylai rheoleiddwyr wneud gweithdrefnau cwyno wedi'u hegluro'n glir yn hygyrch i'r rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio, gan eu galluogi i wneud cwyn am ymddygiad y rheoleiddiwr yn rhwydd.</p> <p>2.6 - Dylai rheoleiddwyr gael amrywiaeth o fecanweithiau i alluogi a gwahodd adborth cwsmeriaid yn rheolaidd, ei dderbyn a'i ystyried, gan gynnwys, er enghraifft, drwy arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid y rheiny maen nhw'n eu rheoleiddio.</p> <p>3.3 - Dylai rheoleiddwyr sy'n dylunio fframwaith asesu risg, i'w ddefnyddio eu hunain ac i eraill ei ddefnyddio, gael mecanweithiau ar waith i ymgynghori ar y dyluniad gyda'r rhai sydd yn cael eu heffeithio, ac i'w adolygu yn rheolaidd.</p> <p>6.4 - Dylai rheoleiddwyr gael mecanweithiau ar waith i sicrhau bod eu swyddogion yn gweithredu yn unol â safonau gwasanaeth cyhoeddedig, gan gynnwys eu polisi gorfodi.</p>



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8 am-6 pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon heb ganiatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru